# ATODLEN 1

## YMGORFFORI SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## **RHAN 8**

## MATERION ERAILL

*Archwilio SACetc*

35 (1) O ran datganiad o gyfrifon a baratoir o dan baragraff 33, rhaid iddo—

(a) cael ei lofnodi gan swyddog cyfrifyddu SAC, a

(b) cael ei gyflwyno gan gadeirydd SAC i'r archwilydd a benodwyd o dan baragraff 34,

heb fod yn hwyrach na 5 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef.

(2) Rhaid i'r archwilydd—

(a) ymchwilio i unrhyw ddatganiad o gyfrifon a dderbynnir ganddo o dan is-baragraff (1) a'i ardystio, a

(b) gosod y datganiad o gyfrifon fel y'i hardystiwyd ganddo ynghyd â'i adroddiad arno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Rhaid i'r archwilydd, yn benodol, fod yn fodlon, ar ôl ymchwilio i ddatganiad o gyfrifon a gyflwynir iddo—

(a) bod y gwariant yr aed iddo ac y mae a wnelo'r datganiad ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sydd yn ei lywodraethu;

(b) nad yw arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafodd SAC at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, wedi ei wario ond at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny;

(c) bod y datganiad o gyfrifon yn cydymffurfio â gofynion unrhyw ddeddfiad sy'n gymwys i'r cyfrifon neu'r datganiad o gyfrifon;

(d) bod arferion priodol wedi eu dilyn wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon.

(4) Mae gan yr archwilydd yr hawl, ar bob adeg resymol, i gael gafael ar bob dogfen yr ymddengys i'r archwilydd ei bod yn angenrheidiol at ddibenion archwilio'r cyfrifon.

(5) Caiff yr archwilydd—

(a) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n dal, neu'n atebol am ddogfen o'r fath, ddarparu unrhyw gymorth, gwybodaeth neu esboniad y mae'n rhesymol yn credu ei fod neu ei bod yn angenrheidiol at y dibenion hynny;

(b) ei gwneud yn ofynnol i berson perthnasol ddarparu cyfrifon i'r archwilydd, ar adegau a bennir ganddo, o ran y trafodion hynny (gan y person perthnasol) a bennir gan yr archwilydd.

(6) Ystyr "person perthnasol" yw—

(a) yr Archwilydd Cyffredinol,

(b) SAC, neu

(c) unrhyw berson y mae'r cyfrifon yn ymwneud â'i faterion a'i drafodion ariannol o ganlyniad i baragraff 33(5).

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 35. (See end of Document for details)*

(7) Caiff yr archwilydd—

(a) cynnal ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi defnyddio adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol;

(b) cynnal ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y modd y mae SAC wedi defnyddio adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau SAC;

(c) gosod adroddiad o ganlyniadau unrhyw ymchwiliadau o'r fath gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(8) At ddibenion cynnal ymchwiliadau o'r fath—

(a) mae gan yr archwilydd hawl i gael gafael, ar bob adeg resymol, ar bob dogfen ym meddiant neu o dan reolaeth yr Archwilydd Cyffredinol neu SAC, y mae ar yr archwilydd angen rhesymol amdano at y dibenion hynny;

(b) caiff yr archwilydd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n dal, neu'n atebol am, unrhyw un o'r dogfennau hynny, ddarparu unrhyw gymorth, gwybodaeth neu esboniad y mae'n rhesymol yn credu ei fod neu ei bod yn angenrheidiol at y dibenion hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 35 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** Atod. 1 para. 35 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 35.